# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Awst 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard A Dew, Glyn Haynes, Trevor Lloyd Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Bryan Owen a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (am ran o'r cyfarfod) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R Meirion Jones |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf, 2019.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Prif Weithredwr**

Rhoddwyd cyfweliad i dri ymgeisydd yn dilyn derbyn adborth o'r broses benodi, a chadarnhawyd fod y tri ohonynt wedi cyrraedd y trothwy i'r Pwyllgor Penodi eu hystyried fel rhai y gellid eu penodi i'r Swydd Prif Weithredwr.

Bu i'r ymgeiswyr wneud cyflwyniad, ateb cwestiynau ar y cyflwyniad ac yna ateb set o gwestiynau a ofynnwyd gan aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliadau, **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn fod Mrs Annwen Morgan yn cael ei phenodi i'r swydd uchod o'r 1af o Hydref 2019.**

**MATERION YCHWANEGOL A YSTYRIWYD GYDA CHANIATÂD Y CADEIRYDD**

**Swydd Dirprwy Brif Weithredwr**

**O ganlyniad i'r penodiad y cyfeiriwyd ato dan eitem 4 uchod, penderfynwyd y dylid hysbysebu swydd Dirprwy Brif Weithredwr yn allanol.**

**Swydd Pennaeth Priffrydd, Gwastraff ac Eiddo**

**Penderfynwyd gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan Benaethiaid Gwasanaeth ac i hysbysebu'r swydd yn allanol, os oes angen, yn ddiweddarach.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**